

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

59/2016

DYDDIAD CYHOEDDI:

MEDI 22, 2016

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

Cam 3, Haf 2016

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru: Cam 3, Haf 2016

Anthony Lydall a Laura Nesbitt, Ymchwil a Mewnwelediad Strategol



Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr. Robert Lewis, Pennaeth Ymchwil Twristiaeth,
robert.lewis@wales.gsi.gov.uk

Adran: Adran Gwyddoniaeth, yr Economi a Thrafnidiaeth

Canolfan QED

Ystad Trefforest

Pontypridd

Rhondda Cynon Taf

CF37 5YR

Ffôn: 0300 061 6026

ISBN: 978-1-4734-7594-6

22 Medi 2016

© Hawlfraint y Goron 2016



Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Drwydded y Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle nodir fel arall.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Cynnwys

1. PRIF GANFYDDIADAU.....	2
2. CANFYDDIADAU ANSODDOL	3
3. CEFNDIR A METHODOLEG.....	6
4. PERFFORMIAD DROS YR HAF	8
5. RHESYMAU DROS LEFELAU UWCH O YMWELWYR.....	11
6. PERFFORMIAD Y FLWYDDYN HYD YN HYN	14
7. DISGWYLIADAU A HYDER AR GYFER GWEDDILL Y FLWYDDYN	20
8. BREXIT	24
9. ATODIAD	27

1. PRIF GANFYDDIADAU

Tymor yr haf ardderchog ar gyfer diwydiant twristiaeth Cymru

- 1.1 Mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru wedi mwynhau haf prysur. Mae oddeutu hanner (46%) o fusnesau twristiaeth wedi cael mwy o ymwelwyr na'r haf diwethaf, ac mae mwy na thraean (38%) wedi derbyn yr un lefel. Dim ond lleiafswm (16%) sydd wedi gohebu lleihad.
- 1.2 'Mwy o bobl Brydeinig yn aros yn y DU' yw'r prif reswm am fod yn brysurach – fel y nodwyd gan draean (33%) o fusnesau sy'n derbyn mwy o ymwelwyr. Mae rhai arweinwyr diwydiant yn credu bod hyn, yn rhannol, oherwydd punt wan a/neu'r bygythiad o derfysgaeth ar dir mawr Ewrop.

Mae pob sector a rhanbarth wedi mwynhau haf da

- 1.3 Mae lefelau uwch o ymwelwyr wedi cael eu gweld ar draws pob sector diwydiant a rhanbarth yng Nghymru. Yn benodol, mae meysydd carafanau a gweryslyoedd wedi cael cyfnod ardderchog, gyda dau draean (67%) yn nodi eu bod wedi cynyddu o ran ymwelwyr o gymharu â'r haf diwethaf. Credir bod rhywfaint o dywydd braf a mwy o bobl Brydeinig yn aros yn y DU wedi cyfuno i wneud haf llwyddiannus ar gyfer y sector hwn.

Mae marchnadoedd yr Almaen a marchnadoedd Ewropeaidd eraill hefyd wedi cynyddu eleni

- 1.4 Yn ogystal â'r farchnad ddomestig yn perfformio'n dda, mae gweithredwyr hefyd wedi gweld mwy o ymwelwyr i dir mawr Ewrop hyd yn hyn eleni. Mae oddeutu dau o bob pum busnes (41%) wedi cael mwy o ymwelwyr o'r Almaen o gymharu â'r llynedd, ac mae nifer tebyg (43%) wedi cael yr un lefel.
- 1.5 Mae oddeutu dau o bob pum gweithredwr (39%) wedi cael mwy o ymwelwyr o wledydd Ewropeaidd eraill ac mae tua hanner (47%) wedi cael yr un lefel.

Mae hyder ar gyfer gweddill y flwyddyn yn weddol uchel

- 1.6 Yn dilyn haf da, mae tua chwarter (27%) o weithredwyr yn dweud eu bod yn 'hyderus iawn' ar gyfer gweddill y flwyddyn, ac mae nifer eraill (57%) yn dweud eu bod yn 'weddol hyderus'.

Mae effaith Brexit o hyd i'w weld

- 1.7 Mae dau allan o dri (67%) o weithredwyr yn dweud nad yw Brexit wedi cael unrhyw effaith ar eu busnes ac mae 16% pellach yn dweud nad ydynt yn gwybod.
- 1.8 Mae adborth ar gyfer yr 17% o weithredwyr sy'n weddill yn dweud bod Brexit wedi effeithio ar eu busnes yn amrywio. Mae punt wan yn ymddangos fel ei bod wedi cael rhywfaint o effaith, ond y farn gyffredin yw bod yr effaith lawn, os oes un, o hyd i'w gweld.

2. CANFYDDIADAU ANSODDOL

- 2.1 Mae wyth cyfweiliad trwyadl wedi cael eu cynnal dros y ffôn gyda ffigyrau twristiaeth allweddol ar draws sefydliadau a chyrrff amrywiol ledled Cymru.
- 2.2 Trafodir y prif ganfyddiadau isod.

Perfformiad cryf eleni ar gyfer y diwydiant twristiaeth

- 2.3 Mae adborth o arweinwyr diwydiant wedi bod yn gadarnhaol cyn belled eleni. Er nad yw niferoedd ymwelwyr ar eu mwyaf erioed, mae'n sicr bod teimlad bod perfformiad 2016 wedi'i dderbyn yn dda. Ar ôl tywydd da, mae niferoedd cyffredinol wedi cynyddu ac mae hyder y diwydiant yn uchel.

"Mae adborth cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol. Rwy'n credu ein bod wedi cael haf prysur."

"Mae'r haf wedi bod yn well nag y llynedd, yn bennaf oherwydd tywydd da."

"Mae'r rhan fwyaf o eiddo wedi gwneud yn well na'r llynedd. Mae'r tywydd da wedi chwarae rhan arwyddocaol yn hyn."

"Mae'r sector hwn wedi gwella'r haf hwn, yn bennaf oherwydd gwelliant i isadeiledd lleol yn yr ardal."

Mae digwyddiadau lleol wedi codi lefelau ymwelwyr

- 2.4 Mae rhai arweinwyr diwydiant yn dweud bod digwyddiadau wedi helpu hybu busnes cyfagos, gan fod y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr wedi cael effaith positif yn lleol.

"Mae gwyliau lleol hefyd wedi bod yn allweddol wrth ddenu ymwelwyr."

"Rydym wedi gwneud yn dda gyda gwyliau lleol eleni, megis y Caws Mawr."

"Mae digwyddiadau yng Nghaerdydd wir yn buddio llawer o dde-ddwyrain Cymru. Mae digwyddiadau megis y digwyddiad Roald Dahl wedi denu ymwelwyr. Mae'r digwyddiadau hyn yng Nghaerdydd yn cael effaith fawr arnom ni."

"Mae digwyddiadau lleol wedi denu mwy o ymwelwyr."

Mae marchnata Croeso Cymru'n darparu hwb

- 2.5 Mae rhai arweinwyr diwydiant yn dweud eu bod wedi gweld buddion yn dilyn marchnata Croeso Cymru, sydd wedi annog mwy o bobl i dreulio amser yn y wlad.

"Mae hysbysebu gan Croeso Cymru hefyd wedi bod yn effeithiol, yn benodol yr hysbysebu ar y thema 'find your epic'."

"Mae'r flwyddyn o antur hefyd wedi cael effaith gadarnhaol."

"Mae'r haf wedi teimlo'n fwy prysur. Efallai bod hyn oherwydd ymgyrchoedd fel y Flwyddyn o Antur."

Mae'r bleidlais Brexit wedi cynyddu gwyliau gartref

2.6 Gwnaeth y DU bleidleisio i adael yr UE mewn refferendwm ym mis Mehefin. Ers y bleidlais, mae gwerth y bunt sterling wedi lleihau, sy'n ei gwneud yn fwy drud i bobl Prydain a Gogledd Iwerddon fynd ar wyliau tramor.

2.7 Fel canlyniad, mae rhai arweinwyr diwydiant yn dweud eu bod wedi gweld cynnydd yn y nifer o wyliau gartref ers y bleidlais.

"Rydym wedi gweld cynnydd mewn ymwelwyr o dramor. Gall hyn fod o ganlyniad i'r bleidlais Brexit a phunt wannach."

2.8 Mae'n bosibl bod hyn hefyd wedi effeithio ar gynnydd yn y math o ymwelydd y byddent fel arfer yn disgwyl iddynt fynd dramor ar gyfer eu gwyliau ac ar gyfer arosiadau byr. Mae rhai'n credu bod y gweithredoedd terfysgaeth y'u gohebwyd yn Ewrop eleni hefyd wedi arwain i bobl ar eu gwyliau gredu ei bod yn fwy diogel i aros gartref.

"Mae llawer o'r rheiny sydd ar wyliau gartref yn ymwelwyr annodweddiadol i ni – ymwelwyr ydynt sydd wedi mynd dramor ar eu gwyliau yn hanesyddol ond maent wedi penderfynu mynd ar wyliau yn y DU oherwydd punt wannach, ansicrwydd economaidd cyffredinol a'r bygythiad terfysgaeth yn Ewrop a thu hwnt."

"Mae'r adladd cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol ar gyfer y sector; mae'r punt wannach ac ansicrwydd wedi golygu bod pobl yn mynd ar wyliau i'r DU. Mae'r bygythiad terfysgaeth yn Ewrop hefyd wedi cynyddu twristiaeth yn y DU."

Mae effeithiau hirdymor Brexit yn aneglur

2.9 Mae'r effaith y bydd y bleidlais Brexit yn cael ar y DU yn aneglur yn yr hirdymor, ond mae rhai'n credu y bydd mynd ar wyliau dramor yn dod yn fwy drud, sy'n golygu y bydd mwy o Brydeinwyr yn aros yn y DU a bydd mwy o ymwelwyr o dramor wrth i'r bunt sterling ddod yn well gwerth am arian i bobl sy'n byw mewn gwledydd sy'n defnyddio'r ewro neu ddoler yr Unol Daleithiau.

"Rydw i wir yn credu y bydd cost mynd ar wyliau tramor yn cynyddu yn y dyfodol, gan achosi fwy o bobl i aros yn y DU ar gyfer eu gwyliau."

"Yn y tymor hir, rwy'n credu y bydd yn effeithio ar hyder pobl yn eu harian."

- 2.10 Gall y cynnydd hwn mewn twristiaeth olygu y bydd angen i Gymru gynyddu ei chystadleurwydd, er mwyn i'w diwydiant twristiaeth fuddio o unrhyw gynnydd mewn ymwelwyr.

"Mae'n anodd tybio beth fydd yr effaith hirdymor. Mae'n sicr bydd y farchnad yn dod yn fwy cystadleuol, a bydd yn rhaid i ni weithio'n galetach yng Nghymru a dangos beth y gallwn ni ei wneud."

"Rwy'n credu y bydd Brexit yn cynyddu nifer yr ymwelwyr oherwydd punt is – mwy o ymwelwyr o dramor a phobl yn y DU yn dewis i aros yma."

Mae ansicrwydd yn arwain at rai pryderon ôl-Brexit

- 2.11 Fodd bynnag, mae yna bryderon ynghylch beth all effeithiau'r bleidlais Brexit fod yn y blynyddoedd nesaf. Un pryder yw cyflogaeth, yn enwedig ar gyfer busnesau sy'n cyflogi Ewropeaid nad ydynt o'r DU.

"Mae'r gweithwyr yn poeni am eu dyfodol yn y wlad ac mae perchnogion busnes yn poeni am y math o effaith y bydd Brexit yn cael ar recriwtio staff."

- 2.12 Problem arall yw'r UE yn tynnu cyllideb a grantiau yn ôl, a phryder ynghylch o le y gall arian cyfwerth ddod.

"Mae llawer o bobl yn pryderu – yn bennaf dros grantiau a chyllid. Rydym wir yn dibynnu ar yr arian hwn yng Nghymru ac yn gobeithio y bydd Llywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU yn mynd ati i ddisodli unrhyw gyllid a gollwyd drwy'r Undeb Ewropeidd."

"Nid ydw i'n gallu gweld y grantiau yn cael eu cynnal yn dilyn Brexit a'r un fath o arian yn dod o lywodraethau Cymru na'r DU. Bydd hyn yn golygu mwy o frwydr o grwpiau lleol sydd i gyd yn cystadlu am y cyfanswm llai hwn o arian."

"Nid ydw i'n gallu gweld o le fydd yr arian yn dod i gefnogi'r sector twristiaeth ar ôl i ni adael yr UE."

"Mae cyllid yn y sector cyhoeddus o dan bwysau yn barod, ond bydd Brexit yn rhoi straen hyd yn oed yn fwy arno. Bydd rhaid i awdurdodau lleol ganolbwyntio ar y pethau sylfaenol yn ystod adegau o gyfyngiadau cyllid, megis iechyd ac addysg – a bydd y gyllideb ar gyfer twristiaeth yn cael ei chyfyngu hyd yn oed yn fwy."

- 2.13 Yn gyffredinol, mae'n ymddangos y bydd yn achos o 'aros a gweld' i ddarganfod beth fydd effaith y bleidlais, a sut y gall diwydiant twristiaeth Cymru ymdrin â beth bynnag fydd yn digwydd yn y dyfodol.

"Mae pobl yn y diwydiant yn bryderus am y dyfodol, ond os ydym yn gweithredu yn y ffordd iawn, gallwn ni wir fanteisio ar y cyfle a denu mwy o ymwelwyr o'r DU."

3. CEFNIDIR A METHODOLEG

Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

- 3.1 Mae Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru wedi ei gynllunio i roi adborth cyflym ynglŷn â'r ffordd y mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Arolwg wedi bod yn rhedeg ar amrywiol ffurfiau ers 2005, ac arferir cynnal rhwng dau a phum 'cam' ymchwil bob blwyddyn.
- 3.2 Mae'r don ymchwil hon yn ymwneud â haf 2016, gyda mesuriadau o ddisgwyliadau hefyd ar gyfer y tymor haf sydd i ddod. Mae cwestiynau ad hoc am effaith Brexit hefyd wedi eu cynnwys yn y cam hwn.

Sut y cynhelir yr Arolwg?


- 3.3 Mae'r arolwg hwn wedi cael ei wneud ar gael ar gyfer cwblhau ar-lein fel dewis arall i'r ffôn, sef yr unig ddull a ddefnyddiwyd cyn 2016.
- 3.4 Rydym wedi cynnal 851 o gyfweiliadau dros y ffôn, ac mae'r arolwg ar-lein a ddisbarthwyd yn ôl ardal a phartneriaid sector wedi cynhyrchu 71 ymateb arall. Mae'r sampl gyfan o 922 yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i $\pm 3.2\%$.
- 3.5 Mae'r sampl o 922 ymateb yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth:

Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cyfanswm
Llety â gwasanaeth	103	35	72	72	282
Hunan arlwyo	103	53	107	39	302
Meysydd carafanau / gweryslla	37	18	30	9	94
Hostelau	13	8	8	10	39
Atyniadau	35	7	31	18	91
Bwytai / tafarndai / caffis	16	13	9	13	51
Gweithredwyr gweithgareddau	28	9	15	11	63
Cyfanswm	335	143	272	172	922

- 3.6 Mae oddeutu hanner y sampl (58%) wedi eu graddio gan Croeso Cymru ar hyn o bryd ac mae'r gweddill (42%) heb eu graddio. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis a gweithredwyr gweithgareddau, lle nad yw graddio'n berthnasol. Mae gweithredwyr bwytai, tafarndai a chaffis wedi eu dewis mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o dwristiaeth ar draws gwahanol rannau o Gymru a gofynnwyd iddynt ateb cwestiynau yng nghyd-destun eu hymwelwyr (h.y. nid cwsmeriaid lleol).
- 3.7 Mae pob cyfweiliad dros y ffôn wedi cael ei gynnal gyda pherchnogion neu reolwyr busnesau rhwng 30 Awst a 7 Medi. Cynhwysir copi o'r holiadur fel atodiad.

4. PERFFORMIAD DROS YR HAF

PERFFORMIAD YN ÔL SECTOR



Sylfaen: 889

Mae gwyliau gartref yn helpu codi twristiaeth yng Nghymru

- 4.1 Mae bron hanner (46%) o fusnes twristiaeth yng Nghymru yn dweud eu bod wedi gweld nifer uwch o ymwelwyr yr haf hwn, o'i gymharu â'r llynedd.
- 4.2 Un o'r rhesymau dros hyn, yn ôl traean (33%) o ymatebwyr sydd wedi gweld cynnydd, yw bod mwy o bobl Brydeinig yn aros yn y DU ar gyfer eu gwyliau ac arhosiadau byr.

"Rydym yn cael llawer o bobl o'r DU yn aros gyda ni – dyna ein marchnad fwyaf."
Llety â gwasanaeth

- 4.3 Yn gyffredinol, mae meysydd carafanau a meysydd gwerysyla wedi gwneud yn arbennig o dda, gyda dau draean (67%) yn nodi mwy o bobl yn gwerysyla yn ystod yr haf yma. Ar gyfer y sector hwn, Prydeinwyr sy'n aros yn y DU yw'r rheswm mwyaf cyffredin y mae ymatebwyr wedi gweld cynnydd mewn niferodd – mae traean (32%) wedi nodi hyn.

"Mae'r rhan fwyaf o'r ymwelwyr o'r DU."
Maes carafanau / gwerysllfa

Haf da ar gyfer bwyd a hwyl

4.4 Mae tua hanner y bwytai (53%) a'r atyniadau / gweithredwyr gweithgaredd (51%) wedi nodi niferoedd mwy yr haf yma o'i gymharu â 2015.


"Haf cadarn da gyda digon o bobl yn chwilio am weithgareddau."
Gweithredwr gweithgareddau

"Perfformiad da."
Bwyty / tafarn / caffi

4.5 Mae'r sectorau llety â gwasanaeth a hostelau wedi gwneud yn dda, gyda 45% o ymatebwyr o bob sector yn nodi cynnydd.

4.6 Mae'r haf hwn wedi gweld cynnydd mewn ymwelwyr ar gyfer 38% o weithredwyr hunan arlwyyo sydd wedi ymateb.

TUDD PERFFORMIAD




Mae'r flwyddyn yn parhau i wella

4.7 Ers cam cyntaf y baromedr hwn ym mis Ebrill eleni, mae'r diwydiant twristiaeth yn dangos gwelliant cyson drwy 2016 hyd yma.

4.8 Yn ystod y Pasg, nodwyd gan 21% o ymatebwyr gynnydd o gymharu â Phasg 2015 ac, yn ystod yr haf hwn, mae bron hanner (46%) wedi nodi cynnydd yn y nifer o ymwelwyr o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

PERFFORMIAD YN ÔL RHANBARTH




Sylfaen: 889

Mae pob rhanbarth wedi mwynhau haf da

- 4.9 Mae perfformiad cryf yr haf hwn wedi cael ei groesawu gan bob rhanbarth yng Nghymru, gydag ond ychydig o wahaniaeth arwyddocaol rhyngddynt.
- 4.10 Canolbarth Cymru sydd wedi mwynhau'r tyfiant mwyaf, gyda dros hanner (53%) o ymatebwyr y rhanbarth yn nodi cynnydd ers yr haf diwethaf.
- 4.11 Mae Gogledd Cymru hefyd yn teimlo'n gryf ar ôl i fron hanner (48%) ddweud eu bod wedi gweld mwy o ymwelwyr yn ystod y tymor.
- 4.12 Mae de-orllewin arfordirol Cymru wedi manteisio ar y tywydd braf, gyda 45% o weithredwyr yn gweld cynnydd dros fisoedd yr haf.
- 4.13 Ac mae 39% yn y de-ddwyrain hefyd wedi buddio o gynnydd mewn rhifau, o gymharu â haf 2015.

5. RHESYMAU DROS LEFELAU UWCH O YMWELWYR



Adre ar gyfer y gwyliau

- 5.1 O'r ymatebwyr sy'n nodi cynnydd yn ystod yr haf, mae traean (33%) yn dweud bod mwy o Brydeinwyr wedi aros gartref yn ystod tymor y gwyliau. Mae bwytai, tafarndai a chaffis, yn benodol, wedi buddio o wyliau gartref, gyda bron hanner (48%) yn nodi mwy o Brydeinwyr yn aros yn y DU.

*"Rydym yn gweld llawer o dwristiaid Seisnig sy'n dod i aros ym Mae Trecco."
Bwyty / tafarn / caffi*

*"Mae'r rhan fwyaf sydd yma o Gymru ac o'r DU."
Bwyty / tafarn / caffi*

- 5.2 Mae dau allan o bump (39%) o weithredwyr llety â gwasanaeth hefyd wedi sylwi ar bobl Brydeinig yn aros yn y DU, yn yr un modd ag y mae 32% o atyniadau, darparwyr gweithgareddau, meysydd carafanau a gwर्सylloedd.

*"Cynnydd yn sicr, yn enwedig ymwelwyr o'r DU."
Maes carafanau / gwर्सylla*

- 5.3 Gall hyn, yn ôl rhai gweithredwyr, fod oherwydd y sôn am derfysgaeth yn Ewrop a'r bunt sterling mwy gwan, sy'n gwneud aros ym Mhrydain yn opsiwn mwy diogel a llai drud.

"Terfysgaeth – mae pobl yn teimlo'n fwy diogel ym Mhrydain na thir mawr Ewrop – a'r gwerth punt is."

Llety â gwasanaeth

"Mae terfysgaeth a gwerth y bunt yn cynyddu niferoedd."

Llety â gwasanaeth

"Rwy'n credu bod pryderon tramor yn golygu bod mwy o bobl yn aros yn y DU."

Maes carafanau / gwersyllfa

Mae tywydd gwell yn golygu cynnydd mewn ymwelwyr

- 5.4 Ar gyfer y 20% o'r rheiny sydd wedi gweld cynnydd, mae'r tywydd gwell wedi helpu i annog pobl trwy'r drysau. Mae tywydd gwell wedi bod o'r budd mwyaf i weithredwyr atyniadau a gweithgareddau, gyda 35% sydd wedi gweld cynnydd yn cyfeirio at y tywydd fel ffactor cadarnhaol.

"Roedd tywydd da yn dangos ein hardal mewn ffordd dda i westeion eraill o Gymru."

Llety â gwasanaeth

- 5.5 Roedd tywydd gwell wedi helpu 60% o atyniadau awyr agored gyda mwy o ymwelwyr i groesawu mwy o westeion, o gymharu â 40% o'r rheiny tu fewn a 40% sydd â chymbwysedd o gynigion tu fewn a thu allan – er bod hyn wedi'i selio ar faint sampl bach.


Roedd yr Euros wedi helpu rhoi Cymru ar y map

- 5.6 Gwnaeth Cymru berfformio lawer yn well na'r disgwyl yn Euro 2016, gyda'r tîm pêl-droed cenedlaethol yn cyrraedd rownd gyn derfynol y gystadleuaeth. Mae rhai gweithredwyr yn credu bod llwyddiant y tîm wedi helpu i roi Cymru ym meddyliau ymwelwyr ac ymwelwyr potensial, a allai wedi helpu hybu busnes yr haf hwn.

"Rwy'n credu bod y ffaith bod Cymru wedi gwneud yn dda yn yr Euros wedi codi ymwybyddiaeth ac mae cwpan rygbi'r byd wedi cael effaith gadarnhaol dda."

Llety â gwasanaeth

RHESYMAU DROS LEFELAU GOSTYNGEDIG O YMWELWYR



Sylfaen: 143


Mae tywydd gwael yn lleihau busnes i rai

- 5.7 Mae tua chwarter (26%) o ymatebwyr sydd wedi gweld lleihad yn y nifer o ymwelwyr yn dweud bod y tywydd wedi effeithio ar eu busnes yn negyddol yr haf yma.
- 5.8 Yn benodol, mae 56% o hostelau yn dweud bod tywydd yr haf wedi effeithio ar leihad mewn ymwelwyr, fel y mae 40% o fwytai, 35% o atyniadau a darparwyr gweithgareddau, a 33% o feysydd carafanau a gwersyllfeydd.

*"Nid oedd y tywydd yn dda iawn."
Bwyty / tafarn / cafffi*

6. PERFFORMIAD Y FLWYDDYN HYD YN HYN

LEFEL O YMWELWYR



Sylfaen: 880

Cynnydd yn yr haf yn debyg i'r cynnydd cyffredinol eleni

6.1 Mae'r niferoedd o bob sector sy'n gohebu mwy o ymwelwyr dros yr haf yn debyg i'r rheiny sydd wedi gweld cynnydd cyffredinol yn y nifer o westeion y maent wedi eu croesawu eleni, o'i gymharu â 2015.

6.2 Yn gyffredinol, mae 46% wedi gweld mwy o ymwelwyr eleni. Mae meysydd carafanau a gweryslyffeydd wedi gwneud yn dda yn benodol, gyda chwech allan o ddeg (60%) yn nodi cynnydd.

"Mae wedi bod yn uchel am y rhan fwyaf o'r flwyddyn."


Maes carafanau a gwerysyla

"Mae wedi mynd yn dda iawn eleni."

Maes carafanau a gwerysyla

6.3 Mae niferoedd da o bob sector arall yn mwynhau niferoedd gwell o ymwelwyr eleni, gan gynnwys 55% o fwytai a hanner (50%) o atyniadau a gweithgareddau.

PROFFIDIOLDEB



Sylfaen: 880

Proffidioldeb yn bennaf yn unol â chynnydd mewn ymwelwyr

- 6.4 Mae'r cynnydd y croesawir ym mhroffidioldeb pob sector yn adlewyrchu'r gwelliannau yn nifer yr ymwelwyr hyd yma eleni. Fel canlyniad, mae mwy (63%) o feysydd carafanau a gwerysyllfeydd wedi nodi proffidioldeb uwch hyd yn hyn eleni, o'i gymharu â sectorau eraill.
- 6.5 Mae niferoedd da yn sawl sector wedi gweld cynnydd mewn proffidioldeb yn 2016, o'i gymharu â'r llynedd.


"Rydym wedi bod yn llawn eleni ... mae elw'n uwch nag y llynedd."

Hunan-arlwyyo

"Rydym wedi bod yn llawn drwy'r flwyddyn, felly rydym wedi gwneud mwy o elw nag yr ydym yn y gorffennol."

Hostel


TUEDDIADAU PROFFIDIOLDEB



Proffidioldeb yn codi

- 6.6 Mwy mwy o ymatebwyr wedi gweld mwy o broffidioldeb wrth i 2016 fynd yn ei blaen. Yn ystod y Pasg, dywedodd chwarter (25%) eu bod wedi croesawu cynnydd o ran proffidioldeb o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Nawr yn yr haf, mae 44% yn dweud bod eu llyfrau yn dangos proffidioldeb uwch o gymharu â haf 2015.
- 6.7 Meysydd carafanau a gweryllfeydd sydd wedi gweld y gwelliannau ariannol mwyaf, gyda 22% yn nodi cynnydd mewn proffidioldeb yn ystod y Pasg, ond nawr mae dau draean (63%) yn gweld proffidioldeb uwch.

PERFFORMIAD MARCHNADOEDD



Sylfaen: 817

Mae'r DU yn perfformio'n dda yn 2016

- 6.8 Fel yr adlewyrchwyd yn y rhesymau ar gyfer cynnydd mewn lefelau o ymwelwyr, mae'r DU y tu allan i Gymru wedi bod yn ffynhonnell ar gyfer 45% o ymatebwyr, sydd wedi croesawu mwy o westeion o Loegr, yr Alban ac o Ogledd Iwerddon hyd yn hyn eleni.
- 6.9 Mae dros hanner (55%) o weithredwyr maes carafanau a gwersyllfa wedi gweld mwy o ymwelwyr o'r DU yn gwersylla, ac mae hanner (50%) wedi neilltuo llefydd i westeion o'r farchnad hon.

"Pobl o Brydain yn unig ydynt."

Maes carafanau a gwersyllfa

"Gwnaethom sylwi ar nifer o ymwelwyr o ddinasoedd Prydain megis Birmingham."

Hostel

"Rydym yn cael ymwelwyr o'r DU, o Loegr gan amlaf, yn enwedig o Lundain a Surrey."

Hostel

"Mae'r rhan fwyaf o'n hymwelwyr o Ganolbarth Lloegr – trefi ar y cyrion – ac o Lundain a de-ddwyrain Lloegr."

Atyniad

Mwy o Almaenwyr yn bwyta yng Nghymru

6.10 Mae dros hanner (57%) o fwytai, tafarndai a chaffis yn dweud eu bod wedi gweld cynnydd yn y nifer o Almaenwyr y maent yn eu gwasanaethu yn eu sefydliadau. Mae nifer da (46%) o weithredwyr llety â gwasanaeth hefyd wedi dweud eu bod wedi croesawu mwy o ymwelwyr o'r Almaen.

"Rydym wedi cael mwy o bobl o'r Almaen na blynyddoedd blaenorol."
Llety â gwasanaeth

"Rydw i wedi gweld cynnydd sylweddol mewn ymwelwyr o'r Almaen."
Llety â gwasanaeth

Cynnydd mewn ymwelwyr Ewropeaidd

6.11 Mae tua dau mewn pump (39%) o ymatebwyr yn dweud eu bod wedi croesawu mwy o ymwelwyr o wledydd Ewropeaidd eraill, hefyd. Eto, mae mwy (54%) o fwytai, tafarndai a chaffis wedi gweld cynnydd, o gymharu â'r cyfartaledd o 39% ar draws pob sector.

"Eleni rydym yn cael llawer o fusnes o wledydd Ewropeaidd."
Llety â gwasanaeth


"Rydw i wedi sylwi ar ymwelwyr o Ddwyrain Ewrop."
Maes carafanau a gwerysyla

"Rydym yn gweld cynnydd mewn ymwelwyr o dir mawr Ewrop."
Atyniad

Canlyniadau cymysg o Weriniaeth Iwerddon

6.12 Tra bod pob marchnad arall wedi gwneud yn dda cyn belled eleni, mae 19% o ymatebwyr yn dweud eu bod wedi cael llai o ymwelwyr o Weriniaeth Iwerddon, tra bod 16% wedi gweld cynnydd.

GWASGARIAD YMWELWYR YN ÔL MARCHNAD



Mae nifer o weithredwyr wedi methu rhoi dadansoddiad dibynadwy o'u cwsmeriaid ar gyfer pob marchnad; mae'r rhain wedi cael eu heithrio o'r canlyniadau uchod.

Mae'r DU y tu allan i Gymru yn denu 60% o ymwelwyr

6.13 Mae tri o bob pump (60%) o dwristiaid i/yn Nghymru o'r DU y tu allan i Gymru. Mae marchnad Cymru'n darparu chwarter (26%) y niferoedd. Yr Almaen yw'r wlad fwyaf arwyddocaol y tu allan i'r DU, gan gyfrannu tua 3% o ymwelwyr.

6.14 Mae gwahaniaethau arwyddocaol rhwng sectorau'n cynnwys:


- Mae'r sector hunan arlwyyo'n derbyn niferoedd lawer yn uwch (74%) o ymwelwyr o'r DU (y tu allan i Gymru) na sectorau eraill.
- Mae ymwelwyr Cymru'n cael eu cynrychioli mwyaf ymysg bwytai / tafarndai / caffis (46% o gwsmeriaid twristiaeth) ac atyniadau a darparwyr gweithgareddau (41%).
- Mae ymwelwyr Ewropeaidd (tu allan i'r DU) yn fwy amlwg yn y sector llety â gwasanaeth (14% o westai) a hostelau (13%).

6.15 Mae gwahaniaethau yn ôl rhanbarthau Cymru'n cynnwys:

- De-ddwyrain Cymru sy'n denu'r nifer fwyaf (19%) o ymwelwyr o du allan i'r DU
- Gogledd Cymru sy'n denu'r nifer fwyaf (72%) o ymwelwyr o'r DU (y tu allan i Gymru).

7. DISGWYLIADAU A HYDER AR GYFER GWEDDILL Y FLWYDDYN

DISGWYLIADAU YN ÔL SECTOR



Perfformiadau cadarnhaol wedi'u rhagweld

- 7.1 Wrth ystyried gweddill y flwyddyn, dylai misoedd olaf 2016 ddod â chynnydd mewn ymwelwyr ar gyfer traean (33%) o fusnesau twristiaeth yng Nghymru. Mae'r symudiad cadarnhaol hwn ar gefn blwyddyn weddol gryf.
- 7.2 Mae nifer da o atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau (45%) a bwytai (44%) yn disgwyl gweld mwy o ymwelwyr yn eu lleoliad yn ystod gweddill y flwyddyn, o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2015.

"Dylai fod yn dda ar gyfer gweddill y flwyddyn."

Atyniad

"Rydym yn hyderus iawn gan fod pobl yn fodlon archebu ymlaen llaw. Mae amseroedd arwain hirach yn ein helpu i ragweld ein busnes yn fwy cywir."

Gweithredwr gweithgareddau

- 7.3 Mae'r un peth yn wir am dua traean o feysydd carafanau a gwerysllfeydd (34%) a llety â gwasanaeth (30%).

"Rydw i'n gallu gweld archebion yn ymddangos yn barod. Rydym yn llawn tan fis Tachwedd."

Llety â gwasanaeth


“Rydym wedi ehangu ein cyfnod busnes ac rydym ar agor bellach dros y Nadolig, ac rydym yn llawn ar gyfer y Nadolig.”
Maes carafanau a gwersylla

7.4 Ond nid yw gwestai (29%) a gweithredwyr hunan arlwyo (28%) ymhell tu ôl, gyda digon o bositifrwydd ar gyfer y misoedd nesaf.

“Archebion cadarn hyd at fis Rhagfyr.”
Hunan-arlwyo

“Rydym yn llawn am weddill y flwyddyn.”
Hostel

HYDER YN ÔL SECTOR



Sylfaen: 922

Hyderus iawn ar gyfer y misoedd nesaf

- 7.5 Mae lefelau hyder yn gryf iawn ar ôl blwyddyn dda hyd yma. Yn gyffredinol, mae 84% o weithredwyr yn dweud eu bod naill ai'n 'hyderus iawn' neu'n 'weddol hyderus' ym mherfformiad eu busnes am weddill 2016.
- 7.6 Mae blwyddyn dda iawn ar gyfer bwytau, tafarndai a chaffis wedi arwain at obaith mawr, gyda thua thraean (35%) yn 'hyderus iawn' a 57% pellach ynn 'weddol hyderus' tan ddiwedd y flwyddyn.

"Wrth ystyried sut mae wedi bod hyd yma, mae pethau'n edrych yn dda ar gyfer gweddill y flwyddyn."

Bwyty / tafarn / caffi

- 7.7 Mewn gwirionedd, mae hyder yn uchel ymysg pob sector, wrth fynd ymlaen.


"Eithaf hyderus mewn gwirionedd, mae busnes yn mynd yn dda."

Llety â gwasanaeth

"Rwy'n weddol hyderus ac yn disgwyl gwneud yn well nag y llynedd."

Gweithredwr gweithgareddau

TUEDD HYDER




Mae disgwyliadau hyderus yn aros yn gyson drwy gydol 2016

- 7.8 Mae'r flwyddyn hon yn parhau i weld diwydiant twristiaeth hyderus yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn gweld y misoedd nesaf mewn ffordd gadarnhaol, ymhob cam o'r flwyddyn.
- 7.9 Roedd hyder ar ei gryfaf yn ystod cam 2, gan fod busnesau yn rhagweld haf braff. Yn ystod y cam hwn, roedd dau mewn pump (40%) yn 'hyderus iawn' ac yn agos at hanner (47%) yn 'weddol hyderus' am fisoedd yr haf.

8. BREXIT

EFFAITH PLEIDLAIS BREXIT



Sylfaen: 922

Dim ond ychydig o effaith o'r bleidlais Brexit, hyd yma

- 8.1 Yn y refferendwm cyntaf o'i fath, gwnaeth y DU bleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd. Gwelodd y bleidlais, a ddigwyddodd ym mis Mehefin, 52% yn dewis i adael.
- 8.2 Mae'r rhan fwyaf (67%) o ymatebwyr yn dweud nad ydynt wedi cael eu heffeithio gan y bleidlais Brexit – ac mae 16% pellach yn ansicr pa effaith, os mae wedi cael unrhyw effaith, y mae wedi ei chael. Ond er y bydd yn cymryd rhai blynyddoedd i'r DU wahanu o'r UE, mae rhai gweithredwyr wedi sylwi ar effaith.

"Sylwais i fod busnes wedi'i effeithio'n syth ar ôl Brexit a nawr mae yn ôl i normal."
Maes carafanau / gwerysllfa

- 8.3 Mae nifer fwy (12%) yn dweud bod yr effaith wedi bod yn gadarnhaol, o'i gymharu â 5% sy'n credu ei fod wedi cael effaith negyddol, hyd yma.
- 8.4 Un o'r rhesymau y mae wedi bod yn gadarnhaol, yn ôl rhai gweithredwyr, yw bod y bunt sterling wedi gwanhau yn dilyn y bleidlais, a oedd wedi gwneud Prydeinwyr yn fwy tebygol o fynd ar wyliau gartref gan fod yr ewro wedi disgyn o ran gwerth am arian.

Ansicrwydd dros effaith ôl-Brexit yn y dyfodol

- 8.5 Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn ansicr o ba effaith, os bydd unrhyw effaith, y bydd y bleidlais Brexit yn cael dros y blynyddoedd nesaf. I lawer o bobl, mae'n achos o 'aros i weld' wrth i unrhyw effeithiau ymddangos.

"Ddim yn gwybod, dydych chi ddim yn gallu rhagweld beth fydd yn digwydd."
Llety â gwasanaeth

"Mae'n eithaf cynnar i ddweud."
Atyniad

"Rwy'n meddwl y bydd yn rhaid i ni aros. Gan fod yr economi o hyd yn adfer, mae'n anodd gwybod."
Hunan-arlwyo

"Mae'n dibynnu ar yr ansicrwydd economaidd a gwleidyddol parhaus. Rwy'n amau yr oedd pobl wedi'u cynhyrfu gan y canlyniad i ddechrau ac wedi cyfyngu o ran gwario arian."
Atyniad

"Dydw i wir ddim yn gwybod, aros i weld tybiwn i. Roedd y rhan fwyaf o'n harchebion wedi'u gwneud cyn Brexit, felly nid oes modd dweud."
Llety â gwasanaeth

Cadw llygaid ar gyfraddau cyfnewid

- 8.6 Gwnaeth gwerth y bunt sterling ostwng yn dilyn y bleidlais Brexit, yn gwneud y DU yn werth gwell fel cyrchfan ar gyfer nifer o ymwelwyr o dramor ac yn ddewis mwy diogel ar gyfer ymwelwyr o Gymru a gweddill y DU. Fel canlyniad, bu cynnydd o ran y nifer o ymwelwyr o'r DU.
- 8.7 Mae rhai ymatebwyr yn dweud efallai bod effaith y bleidlais Brexit yn dibynnu ar gyfraddau cyfnewid y dyfodol, a allai effeithio ar apêl y DU i ymwelwyr potensial.

"Bydd busnes yn dibynnu ar y bunt a chyfraddau cyfnewid."
Hostel

"Mae'n dibynnu ar y gyfradd cyfnewid os bydd ymwelwyr o hyd yn dod draw. Ddim yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'n gorbenion busnes."
Gweithredwr gweithgareddau

"Mae'n anodd dweud tan fod Erthygl 50 yn cael ei chychwyn ac mae trafodaethau economaidd yn dechrau. Bydd amgyffrediad y DU fel cyrchfan effeithiol o ran cost yn dibynnu ar werthoedd arian."
Llety â gwasanaeth

Effaith fisas potensial

8.8 Os bydd angen rheolaeth ffiniau a fisas i Ewropeaid gael mynediad i'r DU, mae rhai ymatebwyr yn credu y gall ymwelwyr o dramor ychwanegu hyn at eu hystyriaethau wrth chwilio am gyrchfan gwyliau.

"Ymwelwyr Ewropeaidd yn dod yn fwy oherwydd y gyfradd cyfnewid ar hyn o bryd. Yn y tymor hir, mae'n dibynnu sut mae'r ewro yn erbyn y bunt, a fydd yn sefydlogi, a hefyd os oes unrhyw gyfyngiadau fisa."

Gweithredwr gweithgareddau

"Buddion ariannol ond yn dibynnu ar agweddau Ewropeaidd at Brydain a rhwyddineb teithio."

Llety â gwasanaeth

"Dydw i ddim yn sicr pa mor hawdd fydd hi, mae'n dibynnu ar ba mor anodd y bydd i bobl groesi ffiniau."

Maes carafanau / gwersyllfa

9. ATODIAD

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

Summer Wave

Online

.....

Sector Sector

Llety â gwasanaeth

Llety hunan arlwyo

Maes carafannau / pebyll

Hostel

Atyniad

Cynnal gweithgaredd

Bwyty / tafarn / caffï

Q1 Sut fydddech chi'n disgrifio eich atyniad?

Mae'r atyniad yn hollol neu rhan fwyaf yn yr awyr agored

Mae'r atyniad yn hollol neu rhan fwyaf dan do

Gymysgedd o dan do ac yn yr awyr agored (hanner a hanner)

Q2 A yw eich busnes wedi'i sefydlu am fwy na 12 mis?

Do Go to Q3

Naddo Go to Q12

Q3 O gymharu â haf y llynedd, faint o ymwelwyr yr ydych wedi'u cael yn ystod yr haf yma?

Yn fwy na'r llynedd

Tua'r un peth ag y llynedd

Yn llai na'r llynedd

Ddim yn gwybod

Q4 Pam fyddech chi'n dweud eich bod wedi cael mwy o ymwelwyr? (Ticiwch bob un perthnasol)

Tywydd gwell

Marchnata eich hun.....

Marchnata cyffredinol.....

Busnes dychwel

Adferiad economaidd.....

Mwy o archebion trwy asiant ar-lein (e.e. booking.com).....

Wedi arwyddo fyny i asiantaeth newydd (hunan ariwyo).....

Argymhellion.....

Cynnydd mewn twristiaeth.....

Mwy o le / ystafelloedd.....

Digwyddiadau yn yr ardal.....

Ystafelloedd neu gyfleusterau gwell.....

Mwy o bobl Prydain yn aros yn y DU.....

Mwy o ymwelwyr tramor.....

Ddim yn gwybod.....

Arall

Nodwch reswm / resymau eraill

Q5 Pam fyddech chi'n dweud eich bod wedi cael llai o ymwelwyr? (Ticiwch bob un perthnasol)

Tywydd.....

Ddim wedi hyrwyddo'r busnes / busnes dirwyn i lawr.....

Problemau annisgwyl.....

Hinsawdd economaidd.....

Cystadleuaeth gref.....

Twristiaeth wedi gostwng yn yr ardal.....

Llai o ymwelwyr tramor.....

Llai o bobl Prydain yn mynd ar wyliau yn y DU.....

Ddim yn gwybod.....

Arall

Nodwch reswm / resymau eraill

Q6 Hyd yn hyn eleni, sut mae eich lefel gyffredinol o ymwelwyr o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?

I fyny ar y llynedd

Tua'r un peth a llynedd.....

I lawr ar y llynedd

Ddim yn gwybod / well gen i ddim dweud.....

Q7 Hyd yn hyn eleni, sut mae eich proffidoldeb ar y cyfan o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?

I fyny ar y llynedd

Tua'r un peth a llynedd.....

I lawr ar y llynedd

Ddim yn gwybod / well gen i ddim dweud.....

Q8 O edrych ar darddiad eich ymwelwyr, sut mae lefel y busnes hyd yn hyn eleni o bob un o'r marchnadoedd canlynol o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?

	I fyny ar y llynedd	Tua'r un peth a llynedd	I lawr ar y llynedd	Ddim yn gwybod neu ddim yn gymwys
Cymru	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
O fewn y DU tu allan Cymru	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Iwerddon	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Yr Almaen	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gwledydd eraill yn Ewrop	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gogledd America	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gweddill y byd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Q9 Yn nodweddiadol, pa gyfran o'ch busnes sydd yn dod o bob un o'r marchnadoedd canlynol?

Gwnewch yn siŵr fod y cyfanswm yn ychwanegu hyd at 100%. Os nad oes gennych fusnes o fewn unrhyw farchnad, rhowch '0'. Nid oes angen i chi ychwanegu % yn y blwch.

Cymru (%)	<input type="text"/>
O fewn y DU tu allan Cymru (%)	<input type="text"/>
Iwerddon (%)	<input type="text"/>
Yr Almaen (%)	<input type="text"/>
Gwledydd eraill yn Ewrop (%)	<input type="text"/>
Gogledd America (%)	<input type="text"/>
Gweddill y byd (%)	<input type="text"/>

Q10 Oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol i'w gwneud ar berfformiad eich busnes dros yr haf?

Q11 Gan edrych ymlaen at weddill y flwyddyn, sut ydych yn disgwyl nifer eich ymwelwyr i gymharu â haf diwethaf?

I fyny ar haf diwethaf	<input type="checkbox"/>
Tua'r un peth ag haf diwethaf	<input type="checkbox"/>
I lawr ar haf diwethaf	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>

Q12 Ar y cyfan, pa mor hyderus ydych chi am weddill y flwyddyn?

Hyderus iawn	<input type="checkbox"/>
Eithaf hyderus	<input type="checkbox"/>
Ddim yn hyderus iawn	<input type="checkbox"/>
Ddim yn hyderus o gwbl	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>

Q13 Oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol i'w gwneud ar eich disgwyliadau am weddill y flwyddyn?

Q14 Faint, os o gwbl, y mae'r bleidlais Brexit wedi effeithio ar eich lefelau presennol o'ch busnes?

Wedi bod yn bositif iawn.....

Wedi bod yn eithaf bositif

Ddim wedi cael unrhyw effaith

Wedi bod yn eithaf negyddol

Wedi bod yn negyddol iawn

Ddim yn gwybod.....

Q15 Pa effaith yr ydych yn meddwl y bydd Brexit ei chael ar eich busnes yn y blynyddoedd nesaf?

Q16 A yw eich busnes wedi'u graddio neu wedi'u hachredu gan Croeso Cymru (Visit Wales)?

Do.....

Naddo.....

Diolch i chi am eich amser

Region Rhanbarth o Gymru

Gogledd.....

Canolbarth.....

De-orllewin

De Ddwyrain.....